4

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed EBRILL 2021

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 16eg MAWRTH 2021 YN GYWIR.
I`w sganio`n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2021/102. Cais llawn ar gyfer codi balconi tu cefn i:-
   6 Caer Delyn, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts.

2. FPL/2021/67. Cais llawn ar gyfer codi Sied Storfa yn:-
   13 Iard Stad Diwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng D T Roberts.

PENDERFYNIADAU.

3. FPL/2020 /66. Tir ger Stad Cae`r Delyn, Bodffordd. Caniatad. Derbyn.

4. HHP/2021/23. Bryntwrog Isaf, Tynlon. Caniatad. Derbyn

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Dim.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Y Prif Gynllunydd. *Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio.*
   Cyhoeddiad Polisi: Prynu Gorfodol.
   Ystyried llythyr oddiwrth y Gweindog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch cyhoeddi llawlyfr gorchmynion prynu gorfodol Llywodraeth Cymru. Cwestiynau i andrew.ward@gov.cymru.
   Derbyn dim sylw.

7. *Un Llais Cymru.*
   Aelodaeth 2021/22. £163.00.
   Pasiwyd i ymelodi am flwyddyn arall Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng E Williams.

8. Valley Wings. Cylchgrawn. Derbyn.

9. RBLI. Diwrnod VE 8ed Mai 2021. Os ydym eisiau prynnu Tommy o`i amrediad. (WWW.rbli.shop) Elusen ar wahan i`r Lleng Brydeinig. Derbyn a gadael eleni.

RHODDION
10. Dim.

PLWYFOL.
11. Er gwybodaeth.
Mae rheolau newydd wedi dod i`n sylw.
Bydd yn orfodol i bob Mudiad (Hen neu newydd)gael Ysiwrant Ateblorwydd Cyhoeddus.

12. Mynwent Gymunedol. Bodffordd.
Yn anffodus nid ydyw wedi bod yn bosib cofrestru marwolaeth Mr Huw Gethin Jones yn ddiweddar (Cofrestr y Cyngor)
Nid yw`r Clerc wedi derbyn tystysgrif ar gyfer claddu neu amlosgi, na arian am agor bedd (R Hughes) Mae y Clerc wedi cysylltu.

13. Mynwent Gymunedol. Bodffordd.
Amcangyfrif am dorri y Coed.
Gofynwyd i dri. Mr Eifion Fraser Bodffordd. Mr Geraint Roberts (Parc) Mr Chris Owen (Benllech)
Trefnwyd cyfarfod a Mr Eifion Fraser ddwy waith ond nid chafwyd ei bresenoldeb, dim ond gaddo. (Y Cadeirydd yn mynychu ddwy waith) Esgus bob tro.
Cafwyd cyfarfod a Mr Geraint Roberts Llawfeddyg Coed Cymwys. Nid oedd yn ffansio torri y coed wrth y beddi ond yn fodlon torri y gweddill am £300. (Cyfarfod gyda`r Cadeirydd) Ond bu rhaid i`r Clerc ei hysbysu fod angen torri y cwbl a rhai wrth y beddi oedd y rhai mwyaf pwysig.
Mr Chris Owen yn cyfarfod y Cadeirydd ac yn barod i dorri y coed i gyd am £550. (Ganddo Ysiwrant) Cynnig Cyng H G Owen, eilio Cyng D T Roberts i dderbyn a gwneud y gwaith mor fuan ag sydd bosib. Wedi pasio i`w torri ym Mis Rhagfyr 2020.
Cafwyd cwynion fod y coed yn cael ei torri Dydd Sul 2ail Mai 2021. Ac ddim yn dangos parch.
Mae Mr C Owen wedi cadarnhau nad oedd neb yn y fynwent yn torri coed ar y diwrnod yma.
Mae yn bryd i`r gwenuthurwyr trafferthion gael ei ffeithiau`n gywir cyn lledaenu sibrydion.

MATERION ARIANNOL:
14. Cyfrif Rhedegol £13,232.86.

TALIADAU:
15. Clerc £250.00. Un Llais Cymru (Aelodaeth) £163.00. NSPCC (Rhodd) £50.00. Ty Gobaith Conwy (Rhodd) £50.00. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru (Rhodd) £50.00. Hosbis Dewi Sant Caergybi (Rhodd) £50.00. C Hughes (Ffens Cae Chwarae) £500.00. CSYM (Les Cae Chwarae) £25.00. I G Jones (Cyfrifydd) £204.00.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.